DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Deintyddfa Glan Dŵr, Cricieth

19 IONAWR 2017

20 EBRILL 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-9061-1 © Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

   Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 9

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

5. Y Camau Nesaf .......... 14

6. Methodoleg .......... 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ddeintyddfa Glan Dŵr yn 17 Rhes Mona, Cricieth, Gwynedd, LL52 0HG, ar 19 Ionawr 2017.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd Deintyddfa Glan Dŵr, Cricieth, yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Glan Dŵr, Cricieth, wedi darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cricieth ers iddi newid dwylo ym mis Mai 2016. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Practis cymysg yw Deintyddfa Glan Dŵr, Cricieth, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat ac i'r GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, dau therapydd, pum nyrs deintyddol (y mae dau ohonynt yn nyrsys o dan hyfforddiant), a rheolwr practis.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Deintyddfa Glan Dŵr, Cricieth, yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o safon uchel i gleifion a'i bod ag enw da ymysg ei chleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud yr hyn a ganlyn yn dda:

- Canfuom dystiolaeth fod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda iawn, sydd â systemau effeithiol i ategu rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis.
- Roedd yn ymddangos bod y tîm staff yn fodlon yn eu swyddi ac roeddent yn gymwys o ran ymgymryd â'u cyfrifoldebau.
- Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.
- Roedd cyfleusterau pwrpasol rhagorol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadhalogi) offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus, ac mewn cyflwr rhagorol.
- Roedd tystiolaeth fod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymell y gallai'r practis ei wella:

- Cyflwyno lòg canolog i gofnodi pryderon anffurfiol cleifion.
- Gwella'r trefniadau cyffredinol ar gyfer storio cemegion a gwastraff peryglus.
- Mae angen i'r polisi diogelu gael ei ddiweddaru i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.
- Dylai'r practis adolygu ei bolisi presennol ynghylch ymdrin â chwynion a sicrhau bod gwybodaeth glir i gleifion ynglŷn â sut i gyflwyno cwyn am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom dystiolaeth fod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gasglwyd drwy'r holiaduron i gleifion yn bositif ac yn cadarnhau bod cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd pedwar ar hugain o holiaduron eu llenwi a'u dychwelyd atom. Dyma rai o sylwadau'r cleifion:

> *'Deintyddfa sy'n cael ei rhedeg yn hynod dda ac adnodd hollbwysig i'r gymuned'*
>
> *'Gwasanaeth a thriniaeth foddhaol'*
>
> *'Argymhellodd fy mam y practis imi ac rwyf wedi ei argymell i eraill. Gall triniaeth ddeintyddol godi ofn arnoch yn aml, yn arbennig pan fyddwch yn cael triniaethau cymhleth. Mae'n bwysig teimlo eich bod yn ddiogel a'ch bod yn gallu ymddiried yn y deintydd i'ch helpu i oresgyn poen. Rwyf hefyd wedi cael cymorth i ddewis triniaethau preifat, ac mae'r costau a'r dewisiadau wedi'u hegluro imi, yn arbennig pan fo angen gwneud rhywbeth radical'*
>
> *'Bodlon iawn ar y practis hwn a deintydd gofalgar iawn'*
>
> *'Staff proffesiynol a chroesawgar iawn. Mae'r deintydd yn amyneddgar iawn ac yn egluro popeth yn glir. Bydd bob amser yn sicrhau eich bod yn gyfforddus'*
>
> *'Gwasanaeth da iawn'*
>
> *'Bodlon iawn ar gael fy nhrin yma oherwydd rwyf yn glaf nerfus iawn ac mae fy meddwl yn cael ei dawelu'*
>
> *'Cyfeillgar iawn a chlên wrth ymdrin â phobl. Mae [enw aelod staff] yn wych ac yn barod i helpu; mae bob amser yn gwenu. Fy neintydd yw'r un gorau y bûm yn ymweld ag ef erioed. Diolch i bawb am eich gwaith da'*

Gofal gydag urddas

Gwnaethom arsylwi'r dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol a fabwysiadwyd gan yr holl staff yn y practis wrth ymdrin â chleifion. O ran y pedwar ar hugain o holiaduron a gafodd eu llenwi, cadarnhaodd pob claf ei fod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gafodd.

Mae gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd i gleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff ac ar gyfer ymdrin â negeseuon ffôn cleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n amserol, ac, o'r holiaduron a gafodd eu llenwi, mewn pedwar yn unig y nododd y cleifion eu bod erioed wedi profi unrhyw oedi byr.

Dywedodd deg claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal y tu allan i oriau. Mae'r practis yn darparu'r manylion cyswllt ar gyfer argyfwng ar ei ffôn ateb, ei wefan, ac ar daflenni gwybodaeth i gleifion. Mae'r manylion cyswllt wedi'u darparu hefyd ar fynedfa'r safle o'r tu allan ynghyd ag amseroedd agor y practis; fodd bynnag, arwydd laminedig, wedi'i gysylltu â'r drws â phin, oedd hwn. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried ffyrdd eraill o arddangos yr arwydd.

Cadw'n iach

Dywedodd pob claf a lenwodd ein holiadur ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth. Roedd digonedd o daflenni a phosteri hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael yn y ddwy ardal aros, a olygai fod cleifion yn gallu cael gafael ar wybodaeth am sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir.

Dywedodd dros 80% o'r cleifion wrthym fod eu hanghenion iaith yn cael eu bodloni a gwnaethom arsylwi'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion yn ddwyieithog yn y practis.

Gofal unigol

Dangosodd yr ymatebion i'r holiaduron i gleifion inni fod yr holl gleifion yn teimlo'u bod yn cael digon o gyngor am eu triniaeth unigol, eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei gael, a'u bod bob amser yn cael croeso.

Mae'r practis wedi'i leoli dros dri llawr. Mae'r ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod ac ar y llawr cyntaf. Mae'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu mynd i lawr gwaelod y practis â chymorth gan staff, a gallant fynd i un

o’r ystafelloedd triniaeth. Mae cloch drws ar gael yn y brif fynedfa a gwnaethom gynghori’r practis i ystyried gostwng y gloch drws er mwyn i ddefnyddwyr cadair olwyn allu ei chyrraedd.

Roedd un toiled i’r ddau ryw ar y llawr gwaelod i’w ddefnyddio gan gleifion, ac un toiled ar y llawr cyntaf i’r staff. Roedd y ddau gyfleuster ag arwyddion clir ac roeddent i’w gweld i fod yn lân. Gwnaethom argymell i’r practis ei fod yn rhoi bin a weithredir â phedal troed yn y toiled staff, yn lle’r bin presennol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cynghorwyd y practis i roi bin a weithredir â phedal troed yn y toiled staff, yn lle’r bin presennol.***

Gwnaethom adolygu polisi trin cwynion y practis a gwelsom y lòg cwynion. Pan gynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd y practis wedi cael dim cwynion. Mae polisi trin cwynion y practis yn cwmpasu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac mae angen ei ddiweddaru er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt cywir yr awdurdod cofrestru. Gwnaethom hefyd gynghori’r practis i adolygu’r polisi a sicrhau bod y manylion ynghylch sut i gyflwyno cwyn ynglŷn â thriniaeth breifat a thriniaeth y GIG yn cael eu cyfleu mor glir ag y bo modd i gleifion, oherwydd efallai na fyddent am ofyn am y rhain.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai’r practis adolygu ei bolisi presennol ar ymdrin â chwynion a sicrhau ei fod yn glir fel bod cleifion yn gwybod sut i gyflwyno cwyn ynglŷn â thriniaeth breifat a thriniaeth y GIG.***

***Rhaid i fanylion cyswllt cywir yr awdurdod cofrestru gael eu cynnwys ar gyfer triniaeth breifat.***

Roedd y weithdrefn ar gyfer cyflwyno cwyn wedi’i harddangos yn glir ger desg y dderbynfa ac yn y ddwy ystafell aros; roedd hefyd wedi’i chyflwyno yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, er y mesurau hyn, o’r holiaduron a gafodd eu llenwi, canfuom fod mwy na hanner y cleifion wedi nodi nad oeddent yn gwybod sut i gyflwyno cwyn. Gwnaethom awgrymu y dylai’r practis ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod pob claf yn gwybod sut i gyflwyno cwyn.

Rhoddodd y practis wybod inni fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu nodi yng nghofnodion cleifion unigol ac yr ymdrinnir â nhw’n briodol. Gwnaethom gynghori’r practis i gofnodi pryderon anffurfiol mewn lòg canolog fel y gellir canfod unrhyw themâu cyffredin.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid rhoi lòg canolog ar waith i gofnodi pryderon anffurfiol cleifion.***

Gwnaethom drafod dull y practis o fynd ati i geisio adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hynny drwy ddarparu holiaduron i'w gleifion yn ardal y dderbynfa. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi gweithredu ar sail yr adborth ac wedi'i ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau yn y practis. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos y dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos bod eu hadborth unigol wedi'i gofnodi ac y gweithredwyd arno i hwyluso'r broses o ddysgu a gwella yn y practis.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o gyflawni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn fodern, â chyfarpar digonol, ac mewn cyflwr rhagorol.**

Gofal diogel

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r pedair ystafell driniaeth a chanfuom eu bod yn cynnwys cyfarpar perthnasol er diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld i fod yn lân ac mewn cyflwr rhagorol.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar yr holl gyfarpar trydanol gan sicrhau bod pob dyfais fach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cynnal offer tân cyfredol. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd yr allanfeydd brys i'w gweld yn glir ac roedd y poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o daflenni data ynghylch Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) ac asesiadau risg perthnasol a oedd ar waith, a oedd wedi'u hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom fod dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu â gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi'i wahanu i'r bagiau / cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu presennol.

Gwnaethom nodi ar y cyfan fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer storio cemegion a gwastraff peryglus. Roedd silindrau ocsigen yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb arwydd diogelwch wedi'i arddangos. Roedd cemegion glanhau'n cael eu storio mewn ciwbicl cawod nas defnyddir, yn nhoiled y staff. Nodir ar ddrws y toiled staff ei fod yn ardal breifat i'r staff, ond mae modd datgloi'r drws o'r tu allan ac nid oedd dim arwyddion yno i rybuddio ynglŷn â chemegion.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn adeilad adeiladwaith solet o dan glo, mewn iard gefn a oedd o dan glo. Fodd bynnag, o gynnal arolygiad gweledol, nodwyd bod angen i'r practis fynd i'r afael â diogelwch yr adeilad 'gwastraff' sydd o dan glo, a hynny'n bennaf o ran cwarel y ffenestr, ffrâm y drws, a chyfanswm y bagiau gwastraff sy'n cael eu storio, er mwyn iddi fod yn haws ac yn fwy diogel mynd i'r cyfleuster.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Adolygu'r dull o storio silindrau nwy a chynhyrchion cemegol gan sicrhau bod arwyddion diogelwch a rhybuddio digonol yn cael eu harddangos.***

***Mynd i'r afael â diogelwch yr adeilad 'gwastraff' o dan glo.***

Gwelwyd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol ar y diwrnod, ac roedd y rhain wedi'u hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a thystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol ar gyfer y deintyddion. Nid oedd tystiolaeth ynglŷn â phenodi cynghorydd ar ddiogelu rhag ymbelydredd ar gael inni ei hadolygu ar ddiwrnod yr arolygiad a rhaid ei hanfon at AGIC.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae copi o'r penodiad o gynghorydd ar ddiogelu rhag ymbelydredd i'w anfon at AGIC.***

Roedd trefniadau derbyniol ar gyfer diogelu cleifion a staff pan fo'r cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio. Canfuom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, gwaith o gynnal cyfarpar, a phrofion ar y cyfarpar pelydr-X. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd gan y peiriant pelydr-X yn un o'r ystafelloedd triniaeth gyflinydd, a ddefnyddir i leihau ymhellach y graddau y deuir i gysylltiad ag ymbelydredd/pelydrau-X. Daethom â hyn i sylw'r practis a gwnaethom ei gynghori i gysylltu â'i gynghorydd diogelu rhag ymbelydredd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cysylltu â'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd i wirio ynghylch y ffaith nad oes cyflinydd ar y peiriant pelydr-X.***

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a ddangosodd fod y tîm wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys wedi'u storio mewn lleoliad canolog, gan olygu y byddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i lunio rhestr wirio ynghylch y cyfarpar a'r cyffuriau brys y dylid eu cynnwys yn y pecyn er mwyn sicrhau bod pob eitem ar gael.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cyflwyno rhestr wirio sy'n nodi pa gyfarpar a chyffuriau brys y dylid eu cynnwys yn y pecyn.***

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol rhagorol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadhalogi) offer deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd yr ardal i'w gweld i fod yn lân ac yn ddilanastr. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a sefydledig ar waith i leihau i'r eithaf y perygl o groes-heintio er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff fel ei gilydd.

Gwelsom fod pob aelod staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ynghylch amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a oedd wedi'i adolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r polisi er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen diweddaru'r polisi diogelu er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn gwella'n barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod rhai archwiliadau perthnasol wedi'u cwblhau neu wedi'u trefnu gan y practis.

Roedd tystiolaeth fod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol, a oedd yn dangos bod y gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu i sicrhau iechyd a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o 12 o gofnodion cleifion, ac ar y cyfan canfuom fod y cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynglŷn â'r trafodaethau a gynhaliwyd am ddewisiadau o ran triniaethau, a sut y cafwyd cydsyniad cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaethau.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth fod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda iawn ac sydd â systemau effeithiol i ategu rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis. Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd yn ymddangos bod y tîm staff yn fodlon yn eu swyddi ac roeddent yn gymwys o ran ymgymryd â'u cyfrifoldebau.**

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gan fod mwyafrif y staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn, roedd ganddynt berthynas dda â'i gilydd.

Gwelsom ffolderi cynefino staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno rhestr wirio ar gyfer y rhaglen gynefino er mwyn sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a gwelsom fod pob aelod staff wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan gyflawni gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus.[1]

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm anffurfiol yn cael eu cynnal â'r staff yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd dim cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu cadw. Roedd trefniadau ar waith eisoes yn y practis er mwyn i gyfarfodydd tîm ffurfiol gael eu cynnal a bydd y rhain yn cael eu cofnodi yn y dyfodol, gan lunio cofnodion o'r hyn a drafodwyd.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi ymgymryd â gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd un ymarferydd deintyddol wedi dod i ben yn ddiweddar a chadarnhaodd y practis fod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd yn cael ei brosesu ar hyn o bryd.

Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yng nghyswllt yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

---

[1] https://archive.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/CPD/Tudalens/default.aspx

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau a oedd ar waith gan ganfod eu bod yn adlewyrchu’r arferion gwirioneddol, eu bod wedi’u hadolygu, a’u bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu eu bod yn destun proses o reoli fersiynau. Fodd bynnag, nid oedd dim system ar waith i ddangos tystiolaeth fod staff wedi adolygu’r polisïau hyn yn sgil unrhyw newidiadau. O ganlyniad, gwnaethom gynghori’r practis i gyflwyno system i gofnodi llofnodion staff ynghyd â dyddiadau adolygu a/neu broses o reoli fersiynau.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Glan Dŵr, Cricieth, yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**<u>Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal</u>**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Glan Dŵr, Cricieth

## Dyddiad yr Arolygiad: 19 Ionawr 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis roi bin a weithredir â phedal troed yn y toiled staff, yn lle'r bin presennol. | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991 | Rhoddwyd bin a weithredir â phedal troed yn lle'r bin arall ar unwaith, fel yr argymhellwyd. | T. Jones | 20/01/17 |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis adolygu ei bolisi presennol ynghylch ymdrin â chwynion a sicrhau bod gwybodaeth glir i gleifion ynglŷn â sut i gyflwyno cwyn am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG.<br><br>Rhaid i fanylion cyswllt cywir yr awdurdod cofrestru gael eu | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br><br>Gweithio i Wella<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Mae polisi cwynion y practis wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. | T. Jones | 20/02/17 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cynnwys ar gyfer triniaeth breifat. | | | | |
| Tudalen 8 | Dylid rhoi lòg canolog ar waith i gofnodi pryderon anffurfiol cleifion. | Safon Iechyd a Gofal 6.3 | Mae lòg cwynion anffurfiol newydd ar waith erbyn hyn. | T. Jones | 22/02/17 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 10 | Adolygu'r dull o storio silindrau nwy a chynhyrchion cemegol glanhau gan sicrhau bod arwyddion rhybuddio a storio diogelwch digonol yn cael eu harddangos. | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991<br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005 | Trefnwyd i system gloi newydd gael ei gosod ym mis Ebrill. | T. Jones | 03/04/17 |
| Tudalen 10 | Gwella diogelwch yr adeilad 'gwastraff' o dan glo. | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991<br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005 | Trefnwyd i'r gwelliannau i'r tai allan gychwyn ym mis Ebrill. | T. Jones | 03/04/17 |
| Tudalen 10 | Mae copi o benodiad y cynghorydd ar ddiogelu rhag ymbelydredd i'w anfon at AGIC. | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Gweithredwyd | T. Jones | 08/03/17 |
| Tudalen | Cysylltu â'r cynghorydd diogelu | Rheoliadau | Mae cyflinydd newydd wedi'i | T. Jones | 08/03/17 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | rhag ymbelydredd i wirio ynghylch y ffaith nad oes cyflinydd ar y peiriant pelydr-X. | Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | archebu. | | |
| Tudalen 11 | Rhaid diweddaru'r polisi diogelu er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. | Safon Iechyd a Diogelwch 2.7 | Mae'r polisi diogelu wedi'i ddiweddaru er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. | T. Jones | 23/02/17 |
| Tudalen 11 | Cyflwyno rhestr wirio sy'n nodi pa gyfarpar a chyffuriau brys y dylid eu cynnwys yn y pecyn. | Safon Iechyd a Diogelwch 2.6 | Mae rhestr wirio wedi'i llunio sy'n nodi'r cyffuriau a'r cyfarpar y dylid eu cynnwys yn y pecyn argyfwng. | T. Jones | 23/02/17 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Nid yw'n berthnasol | | | | |

## Cynrychiolydd y Practis: Dr Dylan Parry Jones

## Enw (llythrennau bras):

## Teitl: Dr

## Dyddiad: 08/03/17